# Sut i dderbyn adolygiad o'r gwasanaethau yr ydych yn eu derbyn

## Cyflwyniad

Ydych chi'n derbyn cymorth a drefnwyd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol i fyw'n annibynnol?

Ydych chi'n gofalu am rywun sy'n derbyn cymorth?

Ydych chi'n gwybod fod gennych yr hawl i dderbyn adolygiad o'r cymorth yr ydych yn ei dderbyn?

## Paham ydym ni'n adolygu eich gwasanaethau?

Yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, ar ôl i chi gysylltu â ni am gymorth buom yn trafod eich sefyllfa gyda chi a gyda'n gilydd fe wnaethom weithio allan y ffordd orau i'ch cefnogi, gan gynnwys unrhyw anghenion cymwys.

Trwy adolygu eich sefyllfa gallwn wirio bod unrhyw anghenion cymwys y cytunwyd arnynt yn cael eu diwallu ac yn gweithio'n gadarnhaol i'ch helpu i aros mor annibynnol â phosibl.

Rydym yn galw hyn yn adolygiad o'r Gwasanaethau yr ydych yn eu derbyn. Cynhelir eich adolygiad cyntaf fel arfer o fewn 6-8 wythnos o dderbyn cymorth gennym ni.  Ar ôl hyn, yn dibynnu ar eich sefyllfa, gallwch ddisgwyl derbyn adolygiad blynyddol.

Bydd eich Ymarferydd gofal yn trefnu'r adolygiad blynyddol. Fodd bynnag os ydych yn teimlo bod angen adolygiad cynharach arnoch, rhowch wybod i ni a byddwn yn trefnu i'ch Rheolwr Gofal gysylltu â chi.

## Eich cyfarfod adolygu

Eich adolygiad chi ydyw, felly, y peth pwysicaf yw eich bod yn dweud wrthym os nad yw'r cymorth yr ydych yn ei dderbyn yn gweithio i chi. Siaradwch yn agored gan mai dyma eich cyfle i ddatrys unrhyw broblemau os oes gennych rhai.

Bydd gwahoddiad i'r bobl sy'n darparu'ch cymorth i fynychu'r cyfarfod;
gallwch hefyd wahodd ffrind neu aelod o'r teulu i fod yno gyda chi. Os byddai'n well gennych fod rhywun ddim yn mynychu, dywedwch wrthym.

Bydd eich Ymarferydd yn cofnodi'r hyn yr ydych yn ei ddweud ac yn awgrymu ffyrdd y gallwch barhau i gadw'n annibynnol yn eich cartref eich hun neu amgylchedd cartrefol. Byddant yn gweithio gyda chi i ddeall yr hyn a allai wneud gwahaniaeth cadarnhaol.

## Beth sy'n digwydd ar ôl y cyfarfod adolygu?

Bydd eich ymarferydd yn cadarnhau unrhyw newidiadau gyda chi a gyda'ch gilydd byddwch yn cytuno ar ddyddiad eich adolygiad blynyddol nesaf, fel eich bod chi'n gwybod pryd i ddisgwyl cyfarfod nesaf.

## Ein manylion cyswllt

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r broses adolygu, cysylltwch â'ch Ymarferydd:

**Ffôn:** 01495 762200

**E-bost**:
socialcareCallTorfaen@torfaen.gov.uk

**Ein Cyfeiriad**:
Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Thai Torfaen
Y Ganolfan Ddinesig
Pont-y-pŵl
Torfaen NP4 6YB

*Mae'r daflen ffeithiau hon ar gael mewn ieithoedd a fformatau eraill ar gais. Cysylltwch â ni er mwyn trefnu hyn.*